Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Ysgol Busnes
Gwerth
Cyhoeddus



# Rhaglenni Ôl-raddedig Ysgol Busnes Caerdydd

2024/25

# Ffeithiau allweddol

## 36k

Ni fyddwch chi byth yn bell o Gysylltiad Caerdydd gyda 36,000 o raddedigion busnes ar draws Ewrop, UDA a Chanada, Affrica, y Dwyrain Canol ac Asia.

## £13.5 miliwn

**Canolfan Addysgu Ôl-raddedigion**

Mae'r gofod hwn sydd wedi'i addasu'n llwyr yn ymestyn ein hysgol ar draws tri adeilad ac mae'n cynnwys mannau cymdeithasol ac astudio pwrpasol i ôl-raddedigion ac ystafell fasnachu o'r radd flaenaf.

AACSB ACCREDITED

Cawsom gymeradwyaeth unwaith eto yn 2023 gan y Gymdeithas er Hyrwyddo Ysgolion Busnes Colegol. Dyfernir y nod rhyngwladol hwn i ysgolion busnes gorau'r byd.

ASSOCIATION OF MBAS ACCREDITED

Cawsom ein hachredu gan yr Association of MBAs (AMBA) yn 2021, sef un o awdurdodau mwyaf blaenllaw y byd ym maes addysg fusnes ôl-raddedig.

## Gwasanaeth Gwella Gyrfa

Mae ein Gwasanaeth Gwella Gyrfa yn cynnig cymorth penodol i chi gan gynghorwyr proffesiynol i wella'ch profiad o ran cyflogaeth a chyflawni eich uchelgeisiau gyrfaol.

SMALL BUSINESS CHARTER

Mae ein rhagoriaeth ym maes hyrwyddo menter ymhlith ein myfyrwyr a chefnogi mentrau bach a chanolig wedi'i gydnabod gan y Siarter Busnesau Bach.

# Cynnwys


| CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|
| **DYSGU I WNEUD GWAHANIAETH** | 02 |
| **YSGOL FUSNES Â PHWRPAS** | 05 |
| **EICH MANTAIS BUSNES** | 06 |
| **EIN RHAGLENNI** | 08 |
| RHEOLI BUSNES (MSc) | 08 |
| RHEOLAETH RYNGWLADOL (MSc) | 10 |
| **BENJAMIN SOUTHGATE – YR HYN YR YDYN NI'N SEFYLL DROSTO** | 11 |
| RHEOLI ADNODDAU DYNOL (MSc) | 12 |
| RHEOLI ADNODDAU DYNOL RHYNGWLADOL (MSc) | 13 |
| MARCHNATA (MSc) | 14 |
| MARCHNATA STRATEGOL (MSc) | 15 |
| STRATEGAETH BUSNES AC ENTREPRENEURIAETH (MSc) | 16 |
| **MOHAMMAD KHAN – YR HYN YR YDYN NI'N SEFYLL DROSTO** | 17 |
| CYFRIFEG A CHYLLID (MSc) | 18 |
| CYLLID (MSc) | 19. |
| ECONOMEG (MSc) | 20 |
| ECONOMEG ARIANNOL (MSc) | 21 |
| ECONOMEG, BANCIO A CHYLLID RHYNGWLADOL (MSc) | 22 |
| **PENNY CHAIDALI – YR HYN YR YDYN NI'N SEFYLL DROSTO** | 23 |
| RHEOLI CADWYNI CYFLENWI YN GYNALIADWY (MSc) | 24 |
| LOGISTEG A RHEOLI GWEITHREDIADAU (MSc) | 25 |
| POLISÏAU MOROL A RHEOLI LLONGAU (MSc) | 26 |
| **OPSIYNAU ASTUDIO ERAILL** | 27 |
| **CAERDYDD: DINAS CYFLE** | 28 |
| **CAERDYDD: Y BRIFYSGOL** | 29 |
| **BYW YNG NGHAERDYDD** | 30 |
| **MYFYRWYR RHYNGWLADOL** | 31 |
| **ARIANNU EICH ASTUDIAETHAU** | 32 |
| **GWNEUD EICH CAIS** | 33 |

# Dysgu i wneud gwahaniaeth

Rydyn ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau eich bod yn cael yr wybodaeth broffesiynol a'r sgiliau busnes sydd eu hangen arnoch i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r byd, yn ystod eich astudiaethau a'r tu hwnt.

Yn Ysgol Busnes Caerdydd, byddwch yn cael addysg fusnes o'r radd flaenaf sydd wedi'i lywio gan academyddion mwyaf blaenllaw y byd ac arweinwyr busnes sydd â safbwyntiau gwahanol. Byddant yn herio eich ffordd o feddwl wrth iddynt ddangos y byd busnes i chi o safbwyntiau gwahanol.

Byddwch chi'n elwa ar amrywiaeth o Gysylltiadau Caerdydd, gan gynnwys ein rhwydwaith elît ein hunain o arweinwyr busnes a'ch cymuned gydol oes eich hun o gymar-arbenigwyr.

Credwn fod busnes yn gyfystyr â chymdeithas Byddwch chi'n ymarfer moeseg a chyfrifoldeb cymdeithasol fel y gallwch gyfrannu at y byd ehangach, cyn i chi raddio ac ar ôl hynny.

Byddwch chi'n datblygu sgiliau entrepreneuraidd drwy ffocws ar chwilfrydedd a chreadigrwydd fel y gallwch arwain newid – p'un a ydych am fod yn arloeswr mewn busnes neu am sefydlu eich menter gymdeithasol eich hun.

Byddwch chi'n sicrhau mantais gystadleuol i chi eich hun mewn marchnad fyd-eang drwy ddefnyddio eich egni a'ch trugaredd i sicrhau bod busnes nid yn unig yn effeithiol ond hefyd yn rym er gwell.

Byddwch chi'n llywio eich profiad addysg eich hun drwy gyflwyno eich safbwynt i ni a gwneud dewisiadau sy'n gweithio o'ch plaid chi.

Rydyn ni'n canolbwyntio ar eich dyfodol chi. Mae ein Tîm Gwella Gyrfaoedd yn barod ac yn aros i'ch helpu i gael profiad gwaith a chyflawni eich dyheadau yn y dyfodol.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn ymuno â ni yng Nghaerdydd yn fuan ac, am y tro, dymunwn bob llwyddiant i chi yn eich astudiaethau.

**Yr Athro Rachel Ashworth**
Deon Ysgol Busnes Caerdydd





# Rydyn ni'n sefyll dros_ gyfrifoldeb

"Heddiw, rydym yn wynebu angen dybryd am newid ar lefel fyd-eang. Fodd bynnag, mae'n wir mai ar y lefel leol, unigol y gallwn ni wneud cyfraniad yn ein ffordd gadarnhaol ein hunain. Rwy'n credu bod gan bob un ohonom ni gyfrifoldeb i wneud hyn. Mae cysylltu pethau ar lefel fyd-eang â phethau ar lefel leol yn ein helpu i ddeall sut."

**Yr Athro Peter Wells**
Y Rhag Ddeon ar gyfer Gwerth Cyhoeddus

↘ **Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** cardiff.ac.uk/publicvalue

# Ysgol fusnes â phwrpas

Yn Ysgol Busnes Caerdydd, mae ein diben yn glir – cael effaith gadarnhaol ar y byd. Ein hethos yw dod â dynoliaeth, cynaliadwyedd, haelioni a dewrder i bopeth a wnawn.

**Rydyn ni'n deall bod busnesau a sefydliadau yn wynebu newid sy'n digwydd ar gyflymder a graddfa digynsail, a bod angen arweinwyr busnes arnynt sydd â sgiliau cymdeithasol ymwybodol, gwybodaeth a phrofiad. Mae angen pobl arnynt sydd ag empathi a sensitifrwydd i werthoedd a chredoau amrywiol.**

Rydyn ni'n cael ein hysbrydoli gan ein cyfrifoldeb tuag at genedlaethau'r dyfodol.

Rydyn ni'n dathlu ein dyletswydd i gymunedau lleol a ledled y byd.

Rydyn ni'n hyrwyddo economïau bywiog, arloesol a chynaliadwy.

### RYDYN NI'N GALW HYN YN WERTH CYHOEDDUS. DYMA EIN DIBEN NI.

Mae ein myfyrwyr – chi – yn ganolog i'r ethos hwn. Fel arweinwyr ac arloeswyr y dyfodol, byddwch chi'n mynd ymlaen i drawsnewid y byd er gwell. Byddwn ni'n darparu'r offer, y technegau a'r ymagweddau sydd eu hangen arnoch i wneud y newidiadau hyn.

Mae ein hymchwil yn allweddol i'n llwyddiant, ac yn canolbwyntio ar helpu i ddatrys problemau byd-eang pwysig. Mae'r ymchwil hon yn sail i'n haddysgu, a bydd yn rhoi mewnwelediad i chi i'r datblygiadau diweddaraf. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar bum her fawr:

- gwaith teilwng
- economïau teg a chynaliadwy
- sefydliadau'r dyfodol
- llywodraethu da
- arloesedd cyfrifol

Rydyn ni'n parhau i fod ar flaen y gad o ran y materion hyn drwy gydweithio â sefydliadau sy'n amrywio o gwmnïau rhyngwladol mawr i elusennau lleol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, busnesau entrepreneuraidd newydd ac asiantaethau'r llywodraeth.

Rydyn ni'n defnyddio'r rhwydweithiau hyn i gyflawni gwerth i chi drwy'r canlynol:

- lleoliadau a phrosiectau yn y byd go iawn
- dysgu cydweithredol cymar wrth gymar a gwaith grŵp
- cydweithio â'n Hentrepreneuriaid Gwerth Cyhoeddus Preswyl
- darlithoedd gwadd a seminarau gydag arweinwyr busnes
- teithiau maes a gweithdai

Byddwn ni'n eich ysbrydoli i fynd allan i'r byd yn llawn bywiogrwydd, egni ac optimistiaeth, gydag awydd i wneud gwahaniaeth, yr hyder i ysgogi newid a'r sgiliau i'w wireddu.

I lawer o'n myfyrwyr, nid yw graddio'n golygu diwedd ein perthynas, ond yn hytrach yn ddechrau taith gydol oes o ddysgu ar y cyd o fewn cymuned o lysgenhadon gwerth cyhoeddus.

Ni allwn ni wneud hyn heboch chi.
Gyda'n gilydd gallwn ni wneud gwahaniaeth.



**Yr Athro Peter Wells**
Y Rhag Ddeon ar gyfer Gwerth Cyhoeddus

# Eich mantais busnes

Yr hyn sy'n ein gosod ar wahân yw ein gwerthoedd, ond pan fyddwch chi'n ymuno â ni yn Ysgol Busnes Caerdydd, gallwch hefyd ddisgwyl addysgu o'r safon uchaf, wedi'i lywio gan ymchwil o'r radd flaenaf.

## RHAGORIAETH BUSNES

Rydyn ni'n ymgyrraedd at ragori ar draws ein gweithgareddau ymchwil, addysgu ac ymgysylltu. Mewn cydnabyddiaeth o hyn, rydyn ni wedi cael ein hachredu gan yr Association of MBAs (AMBA), sef un o awdurdodau mwyaf blaenllaw y byd ym maes addysg fusnes ôl-raddedig. Cawsom hefyd ein hail-achredu'n llwyddiannus hefyd gan y Gymdeithas er Hyrwyddo Ysgolion Busnes Colegol (AACSB) yn 2023. Mae'r achrediadau hyn yn ddilysnod o ragoriaeth ar gyfer ysgolion busnes gorau'r byd, ac yn arddangos y profiad academaidd o'r radd flaenaf rydych chi wedi'i gael wrth i chi fynd ymlaen i wneud gwahaniaeth yn eich gyrfa broffesiynol.

## BUSNES, DIWYDIANT A'R TU HWNT

Rydym yn cydweithio ag amrediad o wahanol randdeiliaid i gynyddu ein cyfraniad i gymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i'r eithaf. Mae ymgysylltu o'r math hwn yn golygu ein bod yn ffurfio partneriaethau ac yn cydweithio â sefydliadau yn y sectorau busnes, diwydiant a llywodraeth a sectorau y tu hwnt.

Mae creu'r cysylltiadau hyn yn golygu bod ein myfyrwyr yn y sefyllfa orau posibl ar gyfer ymgymryd â phrosiectau busnes byw, lleoliadau proffesiynol a mewnwelediadau wrth feithrin rhwydweithiau proffesiynol.

## MENTER

O ganlyniad i'n diwylliant o fentergarwch myfyrwyr a chymorth i fusnesau dyfarnwyd gwobr uchel ei pharch y Siarter Busnesau Bach i ni. Felly, os ydych chi'n meddwl bod gennych chi'r hyn sydd ei angen i gychwyn eich busnes eich hun, dyma'r lle ichi. Cewch eich cefnogi i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd, cyfleoedd i fynd i ddigwyddiadau mentora a chystadlaethau ac, wrth gwrs, cymorth busnes o'r radd flaenaf fel myfyriwr ac fel aelod o'n cymdeithas o gyn-fyfyrwyr.

## CYFLOGADWYEDD

Mae ein tîm o weithwyr cyflogadwyedd proffesiynol yma i chi hefyd. Mae eu harbenigedd ar gael i chi er mwyn cael cyngor ar yrfaoedd, lleoliadau diwydiant a mentrau cyflogadwyedd yn ystod eich cwrs gradd.

## RHAGORIAETH YMCHWIL

Mae ein haddysgu'n cael ei lywio gan ein hymchwilblaengar, gan sicrhau eich bod yn dod i gysylltiad â'r syniadau a'r damcaniaethau diweddaraf i'w cymhwyso i'r heriau busnes byd-eang sydd o'ch blaen yn eich gyrfa.

**↘ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn**
cardiff.ac.uk/cy/business-school

Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, gwnaethon ni gyflawni'r canlynol:

- ↘ Y sgôr uchaf posibl ar gyfer amgylchedd ymchwil
- ↘ Ail ymhlith 108 o ysgolion busnes y DU ar gyfer pŵer ymchwil.

## CYFLEUSTERAU RHAGOROL

Mae gennym gyfleusterau rhagorol ar draws tri adeilad, gan gynnwys yr ystafell fasnachu fwyaf yng Nghymru. Mae'r gofod modern hwn sydd wedi'i gyfarparu'n llawn wedi'i leoli yn ein Canolfan Addysgu i Fyfyrwyr Ôl-raddedig, gwerth £13.5 miliwn, ac fe'i ddefnyddir yn helaeth ar gyfer ein rhaglenni bancio, cyllid ac economeg.

## EICH BYWYD FEL MYFYRIWR

Mae ein buddsoddiad mewn cyfleusterau astudio, cymorth a chymdeithasol yn golygu y cynigir yr amgylchedd gorau posibl i chi lwyddo ynddo.

Bydd Cynghorydd Cefnogi Myfyrwyr pwrpasol ar gael i chi. Y sawl hwn fydd eich cyswllt cyntaf ar gyfer ceisio cyngor ynglŷn ag amrywiaeth o faterion, yn cynnwys ffioedd a chyllid, fisâu, tai, cwnsela, iechyd meddwl a lles.











# Rheoli Busnes (MSc)

## Cewch gyfle i ddod yn rheolwr effeithiol a all gynnig atebion creadigol i amrywiaeth o heriau busnes.

| CIPOLWG |
|---|
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Deall Sefydliadau a'r Amgylchedd Busnes |
| Marchnata Byd-eang |
| Gwneud Penderfyniadau Strategol a Gweithredol |
| Rheoli Pobl |
| Dadansoddi Perfformiad Ariannol |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser neu ddwy flynedd gyda blwyddyn ar leoliad proffesiynol |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| Gradd 2:1, GPA 3.0/4.0, neu gymhwyster cyfatebol o brifysgol gymeradwy. Gellir hefyd ystyried ymgeiswyr heb radd a chanddynt gymwysterau proffesiynol cymeradwy neu brofiad gwaith. IELTS: 6.5 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori. |

Mae rhaid i reolwyr ymateb i amgylchedd busnes byd-eang sy'n gynyddol gymhleth. Mae gweithleoedd cyfoes yn aml yn rhychwantu cyfandiroedd, ar-lein ac oddi ar-lein, ac yn cyflenwi nwyddau a gwasanaethau amrywiol yn ystod cyfnod o gyni economaidd.

O ganlyniad, mae sefydliadau'n chwilio am reolwyr sy'n gallu gwneud pethau'n wahanol; rheolwyr o wahanol fannau a galwedigaethau i arwain mudiad newydd ym maes busnes.

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae ein cwrs MSc Rheoli Busnes yn dechrau gyda chi. Beth bynnag yw eich cefndir, byddwn ni'n sicrhau eich bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil ac ymarfer ym maes rheoli busnes, ar draws meysydd craidd fel marchnata, strategaeth, cyllid, logisteg, economeg ac adnoddau dynol.

Bydd ein harbenigwyr yn eich helpu i archwilio sgiliau rheoli allweddol, fel bod gennych chi fantais gystadleuol i lansio gyrfa lwyddiannus fel rheolwr. Byddant yn defnyddio ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol i rannu mewnwelediadau hanfodol byd busnes a'r tu hwnt. Bydd yr addysgu hwn, a arweinir gan ymchwil, yn eich helpu i werthuso goblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol penderfyniadau rheolwyr mewn ystod o gyd-destunau sectoraidd a rhyngwladol.

### BUSNES AR WAITH

Mae'r canlynol ymhlith y grymoedd allanol sy'n cael effaith ar arferion rheoli mewn sefydliadau ar draws y byd: ansicrwydd economaidd, polisïau llywodraeth newidiol, sylw yn y cyfryngau, protestiadau ac ystyriaethau amgylcheddol

Yn ystod ein modiwl Busnes ar Waith, byddwch chi'n canolbwyntio ar ddadl neu fater cyfoes o'r math hwn sy'n berthnasol i'ch gyrfa yn y dyfodol. Byddwch chi'n cwblhau'r modiwl hwn ar ddiwedd eich ail semester, a dyma fydd eich cyfle i gymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau y byddwch wedi'u dysgu ar y rhaglen hyd yn hyn, i ddilema byd-eang cymhleth ar raddfa fawr o'ch dewis.

"Rydyn ni wedi cynllunio ein MSc Rheoli Busnes newydd ar gyfer y bobl hynny sydd â'r uchelgais i lansio gyrfa lwyddiannus ym maes rheolaeth. Byddwn ni'n datblygu eich hyder a'ch gallu drwy eich annog i gymryd rhan mewn heriau busnes go iawn, prosiectau ymgynghori tîm a thrafodaethau strategol."

**Yr Athro Sarah Hurlow (uchod)**
Athro Arweinyddiaeth








## HER YMGYNGHORI

Mae sefydliadau o bob math yn cydnabod bod gan bob gweithiwr set unigryw o sgiliau. Er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â rhai o'r heriau busnes mwyaf cymhleth, mae angen defnyddio tîm lle gall cryfderau pawb gyfrannu at yr ateb.

Mae ein modiwl Her Ymgynghori yn adlewyrchu'r amgylchedd gwaith tîm hwn.

Byddwch yn ymuno â chyd-ddisgyblion o bob rhan o'r byd i nodi atebion i heriau sefydliadol, ymchwilio iddynt a'u gweithredu, a hynny mewn cyd-destunau busnes go iawn. Gan gydnabod cryfderau penodol a doniau'r tîm, byddwch chi'n cefnogi eich gilydd i godi llais, rhannu syniadau a gweithredu.

## BLWYDDYN AR LEOLIAD PROFFESIYNOL

Gallwch estyn ein MSc Rheoli Busnes i ddwy flynedd gyda lleoliad proffesiynol. Mae'r flwyddyn hon mewn diwydiant yn gyfle i chi roi'r theori ar waith a chymhwyso sgiliau busnes i gyd-destun proffesiynol.

Byddwch yn cael eich talu i wneud gwahaniaeth i gorff cyhoeddus, sefydliad preifat neu sefydliad yn y trydydd sector naill ai yn y Deyrnas Unedig neu dramor.

Gan gydweithio â gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant, byddwch chi'n darganfod ffyrdd newydd o wneud pethau drwy herio rhagdybiaethau, cymryd risgiau, a defnyddio eich dychymyg i gyflawni newid cadarnhaol.

Dyma fydd eich cyfle hefyd i wrando a dysgu wrth i chi gaffael y sgiliau ymarferol a'r hyder proffesiynol i sicrhau swydd reoli yn y farchnad cyflogaeth i raddedigion.

## NODWEDDION UNIGRYW

Gallwch ddewis trosglwyddo i'n rhaglen dwy flynedd gyda blwyddyn ar leoliad proffesiynol.

Ymuno â rhaglen reoli sydd wedi'i chynllunio ar gyfer myfyrwyr o unrhyw gefndir disgyblaethol.

Gwerthuso goblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol penderfyniadau rheolwyr mewn ystod o gyd-destunau sectoraidd a rhyngwladol.

Llunio eich rhwydwaith proffesiynol gyda chefnogaeth gan gynghorwyr gyrfa a siaradwyr gwadd uchel eu parch.



# Rheoli Rhyngwladol (MSc)

## Ceir cyfle i ddysgu dulliau a thechnegau er mwyn adnabod a datrys dilemâu moesol ym maes busnes byd-eang.

| CIPOLWG |
|---|
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Llywodraethu, Rheoleiddio a Safonau ym maes Busnes Byd-eang |
| Globaleiddio a Llafur |
| Moeseg Ryngwladol |
| Rheolaeth Drawsddiwylliannol |
| Rheoli Natur |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| Gradd 2:1, GPA 3.0/4.0, mewn rhaglen dyniaethau, gwyddorau cymdeithasol neu fusnes. Gellir hefyd ystyried cefndiroedd gradd eraill a phrofiad gwaith perthnasol. IELTS: 6.5 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori. |
| **PROSES DDETHOL NEU GYFWELD** |
| Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno datganiad personol yn dangos eu diddordeb yn y rhaglen. |

Mae globaleiddio yn golygu bod y byd yn fwy cysylltiedig nag erioed. Mae mwy o fasnach a chyfnewid rhyngwladol yn cynnig cyfleoedd i sefydliadau ehangu'n rhyngwladol ac ateb y galw cynyddol am nwyddau a gwasanaethau sy'n rhychwantu cyfandiroedd.

Ond daw cynnydd am bris. Mae'r bobl a'r lleoedd sy'n cael eu heffeithio gan ein marchnad fyd-eang yn wynebu heriau llethol o ran cyflogaeth a'r amgylchedd, rheoleiddio a chyfrifoldeb, gwleidyddiaeth a gorelwa.

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae ein cwrs MSc Rheoli Rhyngwladol yn mynd i'r afael â'r problemau byd-eang hyn. Byddwn ni'n eich helpu i ofyn cwestiynau sylfaenol am foeseg busnes fel y gallwch ddod yn rheolwr rhyngwladol cyfrifol sydd â'r gallu i gyfrannu atebion cynaliadwy sydd wedi'u llywio'n foesegol i'r heriau mawr mae'r gymdeithas yn eu hwynebu.

Bydd ein harbenigwyr yn eich paratoi ar gyfer cyfleoedd gyrfa byd-eang, gan eich helpu i archwilio swyddogaethau busnes craidd a rôl rheolwyr o fewn sefydliadau rhyngwladol. Byddant yn defnyddio ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol i roi dealltwriaeth feirniadol i chi o gyd-destun cymdeithasol, gwleidyddol a moesegol busnes mewn byd sy'n fyd-eang lle mae ymarferion busnes cynaliadwy yn gynyddol bwysig.

### NODWEDDION UNIGRYW

Cyfle i fynd ar Daith Astudio Ryngwladol i leoliadau fel Airbus France ac Ysgol Busnes Toulouse.

Deall heriau rheoli'r byd go iawn, gan siaradwyr busnes uchel eu parch a thrwy ymweliadau â chwmnïau.

Cyfle i fynd i'r afael â her fusnes gyfoes yn eich Prosiect Rheoli Rhyngwladol.

"Gwnes i fwynhau dysgu am bwysigrwydd rheolaeth gynaliadwy yn yr ymgyrch am allyriadau sero net. Gwnaethon ni ddadansoddi gwahanol ddulliau rheoli cynaliadwy a chynhyrchu adroddiadau ar arferion cynaliadwy cwmnïau rhyngwladol blaenllaw."

**James Howells (uchod)**
Rheoli Rhyngwladol (MSc)



# Rydyn ni’n sefyll dros_ pobl a phlaned

“Mae pobl yn mynd i mewn i fusnes i newid y byd. Os na edrychwn ni ar yr effaith rydyn ni'n ei chael ar gymdeithas, pobl a'r blaned, fyddwn ni ddim yn gadael marc. Y ffordd fwyaf effeithiol o edrych ar lwyddiant busnes yw drwy lens gwerth cyhoeddus ac effaith gymdeithasol.”

**Benjamin Southgate**
Rheoli Busnes (MSc 2021)

**➘ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** cardiff.ac.uk/publicvalue



# Rheoli Adnoddau Dynol (MSc)

**Cewch gyfle i ddatblygu sgiliau adnoddau dynol proffesiynol gan ein harbenigwyr academaidd ac ymarfer ar y rhaglen hon sydd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD).**

| CIPOLWG |
|---|
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Cysylltiadau Cyflogaeth |
| Arweinyddiaeth, Gwaith a Threfniadaeth |
| Cyfraith Cyflogaeth |
| Ymarfer Adnoddau Dynol yn y Gweithle Modern |
| Rheoli Dyfarniadau |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser, dwy flynedd rhan-amser |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| Gradd 2:1, GPA 3.0/4.0 mewn busnes, y gwyddorau cymdeithasol, y dyniaethau, y gyfraith neu bynciau perthnasol eraill, o brifysgol gymeradwy neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhyngwladol.<br>IELTS: 7.0 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori. |

Mae denu'r math cywir o bobl a meithrin eu doniau yn hanfodol i lwyddiant pob sefydliad ac yn ffynhonnell allweddol o fantais gystadleuol. Ond mewn diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn gwobrwyo meddylfryd 'byw i weithio', mae cydbwysedd a llesiant yn bethau sydd o dan fygythiad cynyddol.

**Rhaid i hyn newid.**

Gall gweithwyr proffesiynol hynod fedrus a gwybodus Adnoddau Dynol, a all gwestiynu, gwerthuso'n feirniadol a barnu'n effeithiol sicrhau'r newid hwn.

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae ein MSc Rheoli Adnoddau Dynol yn canolbwyntio ar y gwahaniaethau y gallwch chi eu gwneud i sefydliadau a'u gweithwyr. Byddwch chi'n datblygu'r hyder, yr wybodaeth a'r sgiliau i gwestiynu, gwerthuso a barnu'n effeithiol strategaethau ac arferion sy'n cyflawni effaith a sicrhau gwerth.

Bydd ein tîm o arbenigwyr academaidd ac ymarfer yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel gweithiwr proffesiynol ym maes adnoddau dynol, gan ddatblygu eich sgiliau dadansoddi beirniadol, sgiliau trafod, a'ch sgiliau datrys problemau a gwrthdaro. Byddant yn defnyddio ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol i ddangos sut mae ymarferwyr adnoddau dynol yn llywio ac yn dylanwadu ar broses recriwtio, diwylliant gweithio a pherfformiad sefydliad.

## NODWEDDION UNIGRYW

Cyfleoedd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil ac ymarfer ym maes adnoddau dynol gan siaradwyr busnes uchel eu parch ac ymweliadau â chwmnïau.

Cyfle i fynd i'r afael â her fusnes gyfoes yn eich Prosiect Rheoli Adnoddau Dynol.

Gallwch ddewis astudio'n rhan-amser ochr yn ochr â gweithio.

## ACHREDIAD

CIPD

"Roedd yr wybodaeth a'r deallusrwydd o fewn muriau'r Ysgol Fusnes yn rhyfeddol! Roeddwn i wrth fy modd â'r awyrgylch a grëwyd drwy astudio gydag amrywiaeth o fyfyrwyr rhyngwladol. Mae'r addysgu yn gyfredol ac yn llawn gwybodaeth hefyd."

**Julie Lakin**
Rheoli Adnoddau Dynol (MSc)

# Rheoli Adnoddau Dynol Rhyngwladol (MSc)

**Mae'r rhaglen hon yn cynnig cyfle i chi ddatblygu'r arbenigedd i fod yn ymarferydd adnoddau dynol cyfrifol mewn byd busnes byd-eang.**

Mae datblygiadau mewn gweithrediadau busnes a thechnoleg ar draws marchnad fyd-eang wedi creu heriau o ran rheoli gweithlu amlddiwylliannol.

Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y galw am weithwyr proffesiynol cyfrifol ym maes adnoddau dynol i hwyluso gweithgareddau trawsffiniol.

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae ein cwrs MSc Rheoli Adnoddau Dynol Rhyngwladol yn denu carfan fyd-eang syddeisiau rheoli pobl mewn ffordd wahanol. Wrth baratoi ar gyfer gyrfa ym maes adnoddau dynol rhyngwladol, byddwch yn dysgu i gyfuno gwybodaeth dechnegol arbenigol â dealltwriaeth gadarn o gyd-destunau cymdeithasol, gwleidyddol, diwylliannol a moesegol busnes.

Bydd ein tîm o arbenigwyr academaidd ac ymarfer yn eich helpu i fynd i'r afael â hanfodion y maes dylanwadol hwn. Byddwch chi'n gosod rheoli adnoddau dynol yng nghyd-destun corfforaethau amlwladol wrth fynd i'r afael â'r heriau o greu atebion adnoddau dynol cynaliadwy sydd wedi'u llywio'n foesegol.

Byddant yn defnyddio ymchwil blaenllaw ac enghreifftiau o'r byd go iawn i roi dealltwriaeth feirniadol i chi o'r berthynas rhwng globaleiddio a rheoli llafur, rheolaeth drawsddiwylliannol a chysylltiadau cyflogaeth, fel bod gennych yr wybodaeth a'r arbenigedd i ymarfer dull o reoli adnoddau dynol mewn cyd-destun amlwladol, byd-eang.

## NODWEDDION UNIGRYW


Cyfleoedd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil ac ymarfer ym maes adnoddau dynol gan siaradwyr busnes uchel eu parch ac ymweliadau â chwmnïau.

Mynd i'r afael â her fusnes fyd-eang yn eich Prosiect Rheoli Adnoddau Dynol Rhyngwladol.

Gallwch gaffael yr arbenigedd i fod yn ymarferydd Adnoddau Dynol cyfrifol mewn masnach fyd-eang.



| CIPOLWG |
|---|
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Globaleiddio a Rheoli Llafur |
| Rheoli Rhyngwladol |
| Materion Cyfoes ym maes Ymchwil Adnoddau Dynol |
| Rheolaeth Drawsddiwylliannol |
| Moeseg Busnes Rhyngwladol |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| Gradd 2:1, GPA 3.0/4.0 mewn busnes, y gwyddorau cymdeithasol, y dyniaethau, y gyfraith neu bynciau perthnasol eraill, o brifysgol gymeradwy neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhyngwladol.<br>IELTS: 7.0 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori. |



# Marchnata (MSc)

## Dewch â'ch diddordebau ac arbenigedd i raglen farchnata sydd wedi'i chynllunio ar gyfer myfyrwyr o unrhyw gefndir disgyblaethol.

| CIPOLWG |
|---|
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Hanfodion Marchnata |
| Marchnata yn ei Gyd-destun |
| Marchnata Digidol |
| Marchnata Rhyngwladol |
| Rheoli Brand |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| Gradd 2:1 o brifysgol gymeradwy. Mewn rhai amgylchiadau, bydd modd ystyried ymgeisydd heb radd a chanddo gymwysterau proffesiynol neu brofiad gwaith cymeradwy.<br>IELTS: 6.5 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori. |

Marchnata yw'r busnes o ymgysylltu â'r byd.

Mae cydperthnasau cadarnhaol gyda chwsmeriaid, gweithwyr, cyflenwyr, busnesau eraill, cymunedau lleol, y llywodraeth ac awdurdodau rheoleiddio yn hanfodol i lwyddiant sefydliad.

Mae marchnata'n sicrhau bod yr holl gydberthnasau hyn yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn rhoi hwb i'ch enw da, a hynny dtrwy ddeall ymddygiad, y broses o wneud penderfyniadau ac ymchwil i'r farchnad.

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae ein MSc Marchnata wedi'i gynllunio i ychwanegu at eich astudiaethau blaenorol drwy ddarparu mewnwelediadau bellach i gysyniadau, prosesau a sgiliau marchnata craidd.
Byddwn ni'n eich helpu i ddatblygu'n weithiwr marchnata proffesiynol sy'n gallu dadansoddi senarios sefydliadol a llunio cynlluniau gweithredu ar sail tystiolaeth.

Byddwch chi'n gweithio gyda'n harbenigwyr sy'n academyddion ac yn ymarferwyr i archwilio egwyddorion ac arferion marchnata a sut y gellir eu defnyddio mewn sawl sector, o weithgareddau sy'n ymwneud â nwyddau i amgylcheddau gwasanaeth ac ar draws cyd-destunau rhyngwladol cyferbyniol.

Byddwch chi'n defnyddio gwaith ymchwil blaenllaw ac enghreifftiau o'r byd go iawn i ganfod sut mae sefydliadau'n cyflawni gwerth drwy weithgareddau marchnata ac ymchwil.

### NODWEDDION UNIGRYW

Cyfleoedd i weld marchnata ar waith yn ystod ymweliadau â chwmnïau a chan siaradwyr gwadd uchel eu parch.

Cyfle i fynd i'r afael â her fusnes gyfoes, yn rhan o dîm, mewn Prosiect Marchnata byw.

Cyfle i archwilio materion cyfoes ym maes marchnata wrth i chi osod marchnata yn nghyd-destun gwahanol leoliadau sefydliadol.

### ACHREDIAD

CIM
Accredited Degree

"Mae ein cwrs MSc Marchnata wedi'i gynllunio a'i gyflwyno gan academyddion sy'n flaenllaw yn eu maes. Mae'n herio myfyrwyr i ddatblygu sgiliau marchnata craidd ym maes ymchwil, dadansoddi a chymhwyso."

**Dr Mark Toon**
Darlithydd Marchnata a Strategaeth



# Marchnata Strategol (MSc)

## Dewch o hyd i'ch arbenigedd ym maes marchnata byd-eang gyda'r rhaglen hon sydd â phwyslais ar agweddau ymarferol.

Mewn marchnad fyd-eang orlawn, wedi'i dominyddu gan ddylanwadwyr, cynnwys feirol a heip, mae deunydd marchnata cyfatebol yn suddo i waelodion ffrydiau'r cyfryngau cymdeithasol.

O ganlyniad, mae sefydliadau rhyngwladol ar draws sefydliadau a sectorau yn chwilio am weithwyr proffesiynol ym maes marchnata sydd â'r gallu i gynllunio, creu strategaethau a gweithredu ymgyrchoedd creadigol .

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae ein cwrs MSc Marchnata Strategol yn rhoi theori ar waith. Byddwn ni'n eich helpu i baratoi ar gyfer gyrfa fel gweithiwr proffesiynol ym maes marchnata tra'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i weithrediadau dyddiol busnes lleol.

Fel rhan o'ch prosiect marchnata, byddwch chi'n gweithio mewn tîm prosiect ac yn treulio dau fis yn dysgu am amgylchedd gweithredu sefydliad. Byddwch chi'n dadansoddi eu heriau busnes ac yn dylunio atebion marchnata cyn cyflwyno'ch cynigion i'w bwrdd rheoli.

Er mwyn ategu'r prosiect byw hwn, bydd ein tîm o arbenigwyr academaidd ac ymarfer yn defnyddio ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol ac enghreifftiau o'r byd go iawn i'ch cyflwyno i'r datblygiadau diweddaraf ym maes marchnata a strategaeth. Byddwch chi'n dysgu am y cyfryngau digidol, ymddygiad defnyddwyr a sefydliadau, cyfathrebu integredig ac ymgyrchoedd cymdeithasol, i wneud yn siŵr bod gennych chi'r wybodaeth broffesiynol yn ogystal â'r sgiliau ymarferol i sefyll allan yn y farchnad swyddi i raddedigion.

### NODWEDDION UNIGRYW

Cyfle i fynd i'r afael â her fusnes gyfoes mewn sefydliad cyhoeddus, sefydliad preifat neu sefydliad yn y trydydd sector gyda'ch prosiect rheoli marchnata byw.

Cyfle i ymuno â rhaglen farchnata arbenigol sydd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Marchnata Siartredig.

Cyfleoedd i weld marchnata ar waith yn ystod ymweliadau â chwmnïau a chan siaradwyr gwadd uchel eu parch.

### ACHREDIAD

CIM
Accredited Degree

| CIPOLWG |
| --- |
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Marchnata Digidol |
| Metrigau Marchnata |
| Cyfathrebu Marchnata Integredig |
| Marchnata a'r Gymdeithas |
| Marchnata Rhyngwladol |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| Gradd anrhydedd 2:1,GPA 3.0/4.0, mewn maes pwnc perthnasol fel busnes, marchnata, neu reolaeth, yn cynnwys o leiaf 60%/2:1 yn y DU, neu gyfwerth, mewn o leiaf tri modiwl marchnata (e.e. egwyddorion marchnata, cyfathrebu marchnata, ymddygiad defnyddwyr, marchnata perthnasoedd) a gwybodaeth sylfaenol o fathemateg, neu radd ryngwladol gyfatebol. |

"Y prosiect marchnata oedd y rhan fwyaf pleserus o'r cwrs i mi. Gwnaeth fy nhîm greu cynllun marchnata ymarferol a mewnweledol a gafodd ei gyflwyno i'r bwrdd fel cyflwyniad ffurfiol."

**Jack McReavie**
Marchnata Strategol (MSc)



# Strategaeth Busnes ac Entrepreneuriaeth (MSc)

## Manteisiwch ar y cyfle i ddatblygu eich cynllun busnes eich hun ar gyfer menter newydd gyda chefnogaeth gan arbenigwyr academaidd ac entrepreneuriaid profiadol.

| CIPOLWG |
|---|
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Cynllun Menter Newydd |
| Marchnata Entrepreneuraidd |
| Rheoli Arloesi |
| Arweinyddiaeth a Datblygiad Personol |
| Twf a Datblygiad Menter |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| Gradd 2:1, GPA 3.0/4.0 mewn unrhyw bwnc. IELTS: 6.5 gydag o leiaf 5.5 ym mhob categori. Mewn rhai amgylchiadau, bydd modd ystyried ymgeisydd heb radd a chanddo gymwysterau proffesiynol neu brofiad gwaith cymeradwy. |

Efallai y bydd rhai yn anghytuno, ond rydyn ni'n gwybod y gellir addysgu entrepreneuriaeth. Ond nid yw'n hawdd. Mae'n gofyn am ysbryd penodol, i fod yn ddewr a chael meddwl agored, i fod yn chwilfrydig a chreadigol, dychmygus a delfrydgar. Rhaid i chi ailysgrifennu'r rheolau. Mentro. A dysgu o'ch camgymeriadau. Oes gennych chi'r hyn sydd ei angen?

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae ein cwrs MSc Strategaeth Busnes ac Entrepreneuriaeth wedi'i gynllunio ar gyfer graddedigion o bob cefndir disgyblaethol sydd eisiau canfod ffyrdd newydd o wneud pethau, drwy lansio eu cwmni eu hunain neu ymuno â sefydliad sy'n bodoli eisoes mewn rôl datblygu neu dwf.

Rydyn ni'n hyrwyddo diwylliant o fentro ymhlith ein myfyrwyr ac, yn 2017, dyfarnwyd gwobr y Siarter Busnes Bach i gydnabod hyn. Byddwn ni'n eich helpu i wireddu eich potensial busnes, gan gynnig cyfleoedd i ddysgu gan fusnesau lleol a mentrau cymdeithasol.

Bydd ein tîm o arbenigwyr academaidd a phartneriaid busnes yn eich paratoi chi ar gyfer intrepreneuriaeth ac entrepreneuriaeth, gan eich helpu i archwilio'r amgylchedd economaidd y mae sefydliadau yn gweithredu ynddo, sicrhau cefnogaeth ariannol, rheoli datblygiadau arloesol a marchnata nwyddau a gwasanaethau. Byddant yn defnyddio ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol ac enghreifftiau o'r byd go iawn i'ch annog i fyfyrio ar safbwyntiau ac arferion, fel bod gennych chi'r hyn sydd ei angen i ddechrau eich menter busnes eich hun neu arloesi mewn sefydliad sy'n bodoli eisoes.

### NODWEDDION UNIGRYW

Cyfle i ddatblygu model busnes o dan oruchwyliaeth entrepreneur profiadol.

Cynllunio a chyflwyno'r syniad am fenter newydd ar gyfer busnes newydd neu sefydliad sy'n bodoli eisoes i banel o gyfalafwyr menter.

Cyfle i ymuno â rhaglen lle mae amrywiaeth yn cynnig fforwm trafod a chyfle i ddeall sut mae busnes yn gweithio mewn gwahanol ddiwylliannau.

"Un peth gwych am y cwrs yw sut y caiff busnes ei addysgu drwy enghreifftiau a syniadau gwahanol, ac o bob math o feysydd. Mae wedi rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i fi adeiladu ar syniadau oedd gen i pan oeddwn i'n astudio cyfrifiadureg yn India a chreu busnes cyfan ohonyn nhw."

**Subham Agrawal (uchod)**
Strategaeth Busnes ac Entrepreneuriaeth (MSc)



# Rydyn ni’n sefyll dros_ cynaliadwyedd

“Y tu allan i ymyrraeth y llywodraeth, mae busnesau‘n chwarae rhan bwysig yn ein gallu i warchod yr amgylchedd. Rydym yn dechrau gweld cynnydd yn yr arferion busnes ecogyfeillgar sy’n cael eu mabwysiadu ac yng ngalw defnyddwyr am gynnyrch cynaliadwy, sy'n profi bod gennym y gallu i symud tuag at gyflawni ein nodau hinsawdd dybryd.”

**Mohammad Khan**
Dulliau Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol (MSc)

➔ **Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** cardiff.ac.uk/publicvalue



# Cyfrifeg a Chyllid (MSc)

**Paratowch ar gyfer eich gyrfa ym maes dadansoddi ariannol, rheoli asedau neu fancio buddsoddi ar ein rhaglen sydd wedi'i hachredu gan Gymdeithas y Cyfriwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA).**

| CIPOLWG |
|---|
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Materion Cyfoes ym maes Adrodd Corfforaethol |
| Uwch Gyfrifeg Rheoli |
| Cyllid Corfforaethol |
| Buddsoddi Byd-eang |
| Technoleg ac Ymddygiad Ariannol |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| Gradd 2: 1, GPA 3.0 / 4.0 mewn cyfrifeg a chyllid (ar wahân neu'n gyfunol) o sefydliad cydnabyddedig neu radd gysylltiedig sy'n cynnwys: dau fodiwl cyfrifeg ariannol, dau fodiwl cyfrifeg rheolaeth a dau fodiwl cyllid.<br>IELTS: 6.5 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori. |

Mae'r sector ariannol rhyngwladol wedi'i chwyldroi gan argyfyngau ariannol byd-eang, datblygiadau mewn gwarantau ariannol, datblygiadau technolegol, globaleiddio marchnadoedd cyfalaf, peirianneg ariannol a newidiadau mewn rheoleiddio.

Gyda'i gilydd, mae'r tueddiadau a'r trawsnewidiadau hyn wedi cynyddu'r galw am raddedigion sydd â'r gallu dadansoddol, yr wybodaeth arbenigol a'r gwydnwch proffesiynol i weithredu yn yr arena fyd-eang soffistigedig hon.

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae ein cwrs MSc Cyfrifeg a Chyllid wedi'i gynllunio i hyfforddi cenhedlaeth newydd o weithwyr proffesiynol ym maes cyllid i herio'r system gyda dewrder a hyder. Bydd hyn yn eich galluogi i lywio arloesi ym mhob maes gweithgarwch busnes wrth werthfawrogi arwyddocâd cyfrifeg a chyllid o ran creu cymdeithas fwy cyfrifol a chynaliadwy.

Bydd ein tîm o arbenigwyr academaidd a gweithwyr proffesiynol cyfrifeg cymwysedig yn eich paratoi ar gyfer cyfleoedd gyrfa rhyngwladol ym meysydd cyfrifeg, rheoli ac ymgynghori proffesiynol. Byddan nhw'n defnyddio ymchwil sy'n arwain y byd ac enghreifftiau o'r byd go iawn o berfformiad sefydliadol, adroddiadau ariannol a buddsoddi i roi dealltwriaeth feirniadol ichi o agweddau uwch ar gyfrifeg a chyllid.

## NODWEDDION UNIGRYW

Cyfle i roi theori ar waith ar raglen a arweinir gan ymchwilwyr academaidd a gweithwyr cyfrifeg proffesiynol cymwys.

Caffael offer a thechnegau i ymateb i sector ariannol ansefydlog a nodweddir gan argyfyngau, rheoleiddio, globaleiddio a datblygiadau technolegol newydd.

Cyfle i baratoi ar gyfer astudio ar lefel doethuriaeth neu yrfaoedd sy'n canolbwyntio ar ymchwil gydag ymchwil annibynnol dan oruchwyliaeth academydd.


## ACHREDIAD

ACCA

"Mae'r darlithwyr a'r tiwtoriaid yn amyneddgar iawn ac yn cyfathrebu'n dda. Maen nhw bob amser yn barod i sgwrsio â chi a rhannu eu barn, sy'n gefnogol dros ben i fyfyrwyr rhyngwladol a all fod yn wynebu rhwystrau diwylliannol."

**Fangyuan Chen**
Cyfrifeg a Chyllid (MSc)

# Cyllid (MSc)



**Heriwch eich hun ar y rhaglen hon sy'n canolbwyntio ar ymarfer a datblygwch yr hyder, yr wybodaeth a'r sgiliau i gael gyrfa lwyddiannus ym maes cyllid.**

Mae arloesi technolegol wedi ychwanegu haen arall o gymhlethdod i farchnad arian fyd-eang sy'n tyfu. Mae'r datblygiadau arloesol hyn wedi esgor ar ffyrdd newydd o gynhyrchu cyfoeth. Mae hyn yn golygu bod galw mawr am raddedigion sydd â'r awydd i wneud pethau'n wahanol.

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae ein cwrs MSc Cyllid yn ymateb i'r tueddiadau cyfredol. Byddwn ni'n eich helpu i fod yn weithiwr proffesiynol ym maes cyllid neu'n fyfyriwr ôl-raddedig sy'n barod i ymgymryd â chwrs Doethuriaeth gydag arbenigedd uwch o ran gwneud penderfyniadau a datrys problemau er mwyn rheoli a dehongli data ariannol, adnabod cyfleoedd masnachu moesegol a mesur a rheoli risg.

Bydd ein harbenigwyr yn eich paratoi ar gyfer cyfleoedd gyrfa byd-eang ar y farchnad stoc, ym maes bancio buddsoddi, rheoli cronfa neu ym maes ymgynghori a rheoleiddio. Byddant yn defnyddio ymchwil sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol i ddangos sut y gellir cymhwyso technegau ystadegol ac econometrig i ddata ariannol enghreifftiol. Gan adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol i werth cyhoeddus, byddwch chi hefyd yn cael cyfleoedd i archwilio materion moesegol ym maes cyllid, gan gynnwys buddsoddi cyfrifol a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Gyda defnydd helaeth o'n hystafell fasnachu flaengar, byddwch yn ymgymryd â rhaglen hyfforddi drylwyr wrth ichi ddysgu sut i weithredu rhai o'r cronfeydd data ariannol mwyaf blaenllaw a datblygu eich personoliaeth fasnachu eich hun.

## NODWEDDION UNIGRYW

Cyfle i mireinio'ch sgiliau yn ein hystafell fasnachu, sydd wedi'i chyfarparu â phlatfform Finance Lab Professional gan Global Investor Simulations, system fasnachu electronig TRETS a chronfeydd data ariannol Bloomberg a Refinitiv Datastream.

Caffael offer a thechnegau i ymateb i sector ariannol ansefydlog a nodweddir gan argyfyngau, rheoleiddio, globaleiddio a datblygiadau technolegol newydd.

Cyfle i baratoi ar gyfer astudio ar lefel doethuriaeth neu yrfaoedd sy'n canolbwyntio ar ymchwil gydag ymchwil annibynnol dan oruchwyliaeth academydd.

| CIPOLWG |
|---|
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Prisio Asedau |
| Rheoli Buddsoddiadau |
| Cyllid Corfforaethol |
| Dulliau Meintiol ym Maes Cyllid |
| Strwythur y Farchnad a Masnachu Electronig |
| Technoleg ac Ymddygiad Ariannol |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| Gradd 2:1, GPA 3.0/4.0 o sefydliad cydnabyddedig, mewn cyllid neu radd gysylltiedig sy'n cynnwys: un modiwl meintiol gyda chyfradd pasio o 60% a thri modiwl cyllid dadansoddol, pob un â phas o 60% ar y cyfan.<br>IELTS: 6.5 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori. |

"Rydw i eisiau dilyn gyrfa ym maes ymchwil a chyfrannu at y syniadau academaidd diweddaraf ym maes cyllid. Rydw i wedi dysgu am ddulliau meintiol a chyllid empirig a mathemategol, sydd i gyd yn adnoddau hanfodol ar gyfer unrhyw ymchwilydd ar ddechrau ei yrfa ym maes cyllid."

**Shihao Pei (uchod)**
Cyllid (MSc)




# Economeg (MSc)

**Manteisiwch ar y cyfle i gymhwyso theori economaidd uwch er mwyn ail-fframio problemau gwleidyddol-gymdeithasol cyfoes a'u datrys.**

| CIPOLWG |
|---|
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Econometreg |
| Macroeconomeg Uwch |
| Cyllid Mathemategol |
| Economi Wleidyddol Uwch |
| Ymarfer Macro-Econometrig |
| Pynciau ym maes Polisi Ariannol |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| Gradd anrhydedd 2:1, GPA 3.0/4.0, mewn economeg neu bwnc cysylltiedig, y mae'n rhaid iddo gynnwys y modiwlau canlynol sydd i gyd wedi'u pasio gydag o leiaf 60%/2:1 yn y DU, neu gyfwerth: econometreg (neu fodiwl meintiol cyfatebol) a macroeconomeg, neu radd ryngwladol gyfatebol. IELTS: 7.0 gyda 7.0 mewn ysgrifennu ac o leiaf 6.5 ym mhob categori arall. |

O Brexit a'r Dreth Ystafell Wely i gyflogau a chyfoeth, yr amgylchedd ac ynni i iechyd a'r digartref, prin y bu gan economegwyr cymaint o ddylanwad ar gyfeiriad yr heriau sy'n effeithio ar gymunedau'r byd a'r drafodaeth yn eu cylch.

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae ein cwrs MSc Economeg yn canolbwyntio ar feithrin cenhedlaeth newydd o weithwyr proffesiynol ym maes economeg sydd â'r adnoddau a'r technegau i ddiwallu anghenion economi fyd-eang. Byddwn ni'n eich helpu i baratoi ar gyfer gyrfaoedd ym maes gwasanaethu llywodraethau, diwydiant, sefydliadau rhyngwladol, ymgynghori a banciau canolog, gan sicrhau bod gennych yr wybodaeth ddamcaniaethol arbenigol a'r sgiliau ymarferol i fynd i'r afael â heriau economaidd sylweddol.

Bydd ein tîm o arbenigwyr academaidd yn eich annog i ystyried goblygiadau cymdeithasol, economaidd a moesegol eich penderfyniadau wrth i chi ddod i gysylltiad ag economeg llafur, datblygiad, polisi a masnach. Byddant yn defnyddio'u hymchwil flaengar a'u profiadau ymgynghori yn y byd go iawn i ddangos sut y gellir manteisio i'r eithaf ar dechnegau dadansoddol uwch er mwyn deall problemau ymarferol.

## NODWEDDION UNIGRYW

Cyfle i fynychu gweithdai arbenigol wedi'u cynnal gan ein hadran Economeg ac archwilio'r datblygiadau diweddaraf o ran ymchwil ac ymarfer.

Byddwch yn dysgu gan gyfadran o fri sydd â phrofiad o gynghori ac ymgynghori mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ledled y byd.

Cyfle i baratoi ar gyfer astudio ar lefel doethuriaeth neu yrfaoedd sy'n canolbwyntio ar ymchwil gydag ymchwil annibynnol dan oruchwyliaeth academydd.

"Ar ôl dysgu'r theori, rydych chi'n dechrau deall sut y mae'r economi yn esblygu yn y byd go iawn. Rhoddodd enghreifftiau megis y rhyfel fasnach rhwng UDA a Tsiena, a'r DU yn pleidleisio i adael yr UE y cyfle i mi roi fy ngwybodaeth ar waith."

**Aigerim Rysbayeva**
Economeg (MSc)

# Economeg Ariannol (MSc)

**Mae'r rhagen hon yn rhoi cyfle i chi gafael sgiliau dadansoddol, ansoddol a meintiol i ymateb i broblemau economaidd a wynebir gan asiantaethau'r llywodraeth, banciau canolog, sefydliadau ariannol a diwydiant.**

Yn sgil yr argyfyngau yn 2008, bu'n rhaid i'r sector ariannol ymgymryd â phroses o hunanfyfyrio ac ailadeiladu. Mae ystyr newydd wedi'i briodoli i'r cysyniadau o risg ac enillion, ac mae rhesymu economaidd newydd yn cael ei ddefnyddio i lywio a thaflu goleuni ar y broses o wneud penderfyniadau ariannol ar draws portffolios buddsoddi sefydliadau.

**Mae busnes cyllid wedi newid am byth.**

Mae ein cwrs MSc Economeg Ariannol yn ymgorffori'r ethos hwn. Byddwn ni'n eich helpu i fod yn weithiwr proffesiynol ym maes cyllid neu economydd sydd wedi ymrwymo i greu cyfoeth cyfrifol, gyda'r arbenigedd i reoli a dehongli data ariannol, adnabod cyfleoedd masnachu moesegol a mesur a rheoli risg.

Bydd ein harbenigwyr yn eich paratoi ar gyfer gyrfaoedd yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat ym maes brocera stoc, bancio buddsoddi, dadansoddi ariannol, trysorlys corfforaethol, rheoli cronfeydd ac asiantaethau'r llywodraeth. Byddant yn defnyddio ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol i ddangos sut y gellir manteisio ar dechnegau dadansoddol i ddeall problemau ymarferol.

Gyda defnydd helaeth o'n hystafell fasnachu flaengar, byddwch yn ymgymryd â rhaglen hyfforddi drylwyr i ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o farchnadoedd ar gyfer bondiau, stociau, arian cyfred a deilliadau.

## NODWEDDION UNIGRYW

Cyfle i mireinio'ch sgiliau yn ein hystafell fasnachu, sydd wedi'i chyfarparu â phlatfform Finance Lab Professional gan Global Investor Simulations, system fasnachu electronig TRETS a chronfeydd data ariannol Bloomberg a Refinitiv Datastream.

Cyfle i wella'ch sgiliau gwneud penderfyniadau proffesiynol drwy ddulliau cyfrifiadurol fel E-views.

Cyfle i baratoi ar gyfer astudio ar lefel doethuriaeth neu yrfaoedd sy'n canolbwyntio ar ymchwil gydag ymchwil annibynnol dan oruchwyliaeth academydd.

| CIPOLWG |
|---|
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Microeconomeg |
| Macroeconomeg |
| Egwyddorion Cyllid |
| Dulliau Meintiol |
| Cyllid Rhyngwladol |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| Gradd 2:1, GPA 3.0/4.0 sy'n gorfod cynnwys y modiwlau canlynol i gyd wedi'u pasio gydag o leiaf 60%: macroeconomeg, microeconomeg, a modiwlau meintiol.<br>IELTS: 6.5 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori. |



# Economeg, Bancio a Chyllid Rhyngwladol (MSc)

**Mae'r rhaglen hon yn cynnig cyfle i chi weld y 'darlun cyflawn' o'r facroeconomi a datblygu'r sgiliau i fynd i'r afael â phroblemau ariannol, bancio, cyllid ac economaidd ar draws cyfandiroedd.**

| CIPOLWG |
| --- |
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Materion Cyfoes ym maes Arian, Bancio a Chyllid |
| Macroeconomeg |
| Egwyddorion Cyllid |
| Dulliau Meintiol |
| Economeg a Masnach Ryngwladol |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| Gradd 2:1, GPA 3.0/4.0 sy'n gorfod cynnwys y modiwlau canlynol i gyd wedi'u pasio gydag o leiaf 60%: dulliau meintiol sylfaenol, macroeconomeg, a microeconomeg. IELTS: 6.5 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori. |

Mae globaleiddio economi'r byd yn golygu bod sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn fwy tebygol o lawer o fod yn agored i effaith digwyddiadau neu argyfyngau gwleidyddol ac economaidd, a dulliau cyferbyniol o ymdrin â pholisïau ariannol o dan gyfundrefnau bancio canolog gwahanol.

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae ein cwrs MSc Economeg, Bancio a Chyllid Rhyngwladol yn canolbwyntio ar yr heriau byd-eang hyn. Byddwn yn eich helpu i ddod yn weithiwr proffesiynol ym maes busnes sy'n arbenigo mewn cyllid, masnach a rheoleiddio gyda set sgiliau dadansoddol, ansoddol a meintiol trawsbynciol i fynd i'r afael â heriau ariannol cymhleth.

Drwy ddefnydd helaeth o'n hystafell masnach flaengar, byddwch yn ymgymryd â rhaglen hyfforddi drylwyr mewn economeg fodern a dulliau ariannol. Bydd y dulliau a'r technegau dadansoddol hyn yn rhoi dealltwriaeth feirniadol i chi o ymddygiad bancio, gwneud penderfyniadau o dan amodau ansicr a rheoli risg mewn cyd-destun byd-eang.

Bydd ein harbenigwyr yn eich paratoi ar gyfer cyfleoedd gyrfa rhyngwladol ym meysydd bancio a chyllid, mewn trysorlys cenedlaethol neu asiantaeth y llywodraeth, a hynny drwy dulliau addysgu a arweinir gan ymchwil a dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer ym meysydd arian, bancio, cyllid a masnach.

## NODWEDDION UNIGRYW

Cyfle i mireinio'ch sgiliau yn ein hystafell fasnachu, sydd wedi'i chyfarparu â phlatfform Finance Lab Professional gan Global Investor Simulations, system fasnachu electronig TRETS a chronfeydd data ariannol Bloomberg a Refinitiv Datastream.

Cyfle i gael y mewnwelediadau ymchwil economaidd ac ariannol diweddaraf gan siaradwyr gwadd uchel eu parch.

Ymunwch â chenhedlaeth newydd o feddylwyr a chymhwyso technegau dadansoddol i ddatrys heriau economaidd a chymdeithasol-wleidyddol.

"Fe wnaeth fy mhrofiad a fy hyfforddiant academaidd fy helpu i lwyddo i gael swydd yn y byd bancio tramor yn Shanghai. Dwi bellach yn Rheolwr Gyfarwyddwr yn goruchwylio portffolio corfforaethol yn Tsieina. "

**Xu Zhang**
Economeg, Bancio a Chyllid Rhyngwladol (MSc)



# Rydyn ni’n sefyll dros_ atebolrwydd

“Mae gan fusnesau gyfrifoldeb i’r cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt, sy’n cynnwys bod yn dryloyw ynghylch eu gwerthoedd a chaniatáu i’r cyhoedd arsylwi arnynt a’u mesur. Yn y pen draw, mae mwy o atebolrwydd yn helpu i gynnal pwysau ar fusnesau i wneud daioni.”

**Dr Penny Chaidali**
Darlithydd mewn Cyfrifeg

**↘ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** cardiff.ac.uk/publicvalue

# Rheoli Cadwyni Cyflenwi Cynaliadwy (MSc)

**Mae'r rhaglen hon yn cynnig y cyfle i chi ddatblygu i fod yn ddarpar rheolwr cadwyni cyflenwi a dysgu gan academyddion syy'n flaenllaw yn eu maes.**

| CIPOLWG |
|---|
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Rheoli Cadwyni Cyflenwi yn Strategol |
| Cynaliadwyedd ar gyfer Busnes |
| Cynaliadwyedd Cymdeithasol Cadwyni Cyflenwi |
| Adeiladu Cadwyni Cyflenwi Cynaliadwy |
| Rheoli Prynu a Chyflenwi yn Gyfrifol |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| 2:1 gradd neu gyfwerth. Rydym hefyd yn derbyn myfyrwyr nad oes ganddynt radd gyntaf. Cewch eich ystyried ar gyfer y rhaglen os oes gennych brofiad gwaith perthnasol a sylweddol. IELTS: 6.5 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori. |

Mae rheolwyr cadwyni cyflenwi ar flaen y gad ym maes arloesi, wrth iddynt ddefnyddio'r technolegau diweddaraf gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, blockchain, dulliau dadansoddi data mawr ac awtomatiaeth i gyflwyno eu nwyddau a'u gwasanaethau mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Nid yw ochr isaf arloesedd o'r fath hanner mor flaengar. Mae cystadleuaeth ffyrnig o fewn y cadwyni cyflenwi yn golygu bod prisiau'n cael eu gyrru ar i lawr drwy allanoli ac is-gontractio. Yn y ras hon i'r gwaelod, mae cynaliadwyedd a moeseg yn aml yn ôl-ystyriaethau.

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae gan ein cwrs MSc Rheoli Cadwyni Cyflenwi Cynaliadwy ffocws unigryw ar gynaliadwyedd a masnachu moesegol. Byddwn ni'n eich helpu i fod yn weithiwr proffesiynol sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau sy'n ystyried ystod lawn o'r effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mae cadwyni cyflenwi yn eu cael.

Bydd ein harbenigwyr yn defnyddio'u harbenigedd academaidd ac ymgynghori i'ch paratoi ar gyfer cyfleoedd gyrfa byd-eang, gan eich cyflwyno i bob agwedd ar reoli cadwyni cyflenwi, gan gynnwys sut i gaffael, cyflenwi a dosbarthu nwyddau. Byddant yn defnyddio ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol i roi cipolwg beirniadol i chi ar faterion trawsbynciol megis effaith technoleg, argyfyngau a gweithrediadau dyngarol, a pherfformiad amgylcheddol a chyfrifoldeb tuag at yr amgylchedd.

## NODWEDDION UNIGRYW

Cyfle i ystyried ystod lawn o'r effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mae cadwyni cyflenwi'n eu cael, gyda phwyslais unigryw ar gynaliadwyedd.

Cyfle i weithio gyda phartner diwydiannol ar brosiect ymchwil wrth gasglu data sylfaenol ar gyfer eich traethawd hir.

Cyfle i addasu eich gradd a dilyn eich diddordebau ym meysydd e-fusnes, prynu cyfrifol, masnach neu reoli prosiectau.

## ACHREDIAD

The Chartered Institute of Logistics and Transport

"Ar ôl fy ngradd israddedig, dechreuais ymddiddori'n fawr mewn cynaliadwyedd yn y diwydiant dillad. Mae'r cwrs wedi bod yn ffordd berffaith o ddysgu am gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a sut mae'r rhain yn berthnasol i fusnesau a chadwyni cyflenwi byd-eang."

**Emily Baldwin**
Rheoli Cadwyni Cyflenwi Cynaliadwy (MSc)

# Logisteg a Rheoli Gweithrediadau (MSc)



**Mae'r rhaglen hon yn cynnig y cyfle i chi ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i reoli'r swyddogaethau busnes hanfodol hyn.**

Mae cynhyrchu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau ar amser, o fewn cyllidebac mewn modd effeithiol ac effeithlon, yn hanfodol i hyfywedd economaidd sefydliadau cyfoes. Fodd bynnag, yn sgil y galw cynyddol ar draws tirweddau eang, mae hyfywedd o dan fygythiad cyson.

Er mwyn diwallu'r galwadau hyn, mae gweithwyr proffesiynol ym maes logisteg a rheoli gweithrediadau yn cael eu denu'n gynyddol o gefndiroedd disgyblaeth amrywiol gan gynnwys mathemateg, economeg, peirianneg, daearyddiaeth, y gyfraith, rheolaeth a seicoleg.

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae ein cwrs MSc Logisteg a Rheoli Gweithrediadau yn cydnabod pwysigrwydd yr agwedd aml-ddisgyblaethol. Byddwn ni'n eich helpu i fod yn rheolwr proffesiynol sy'n cael ei werthfawrogi am ei allu i ddatrys problemau; rhywun sy'n creu trefn o gymhlethdod, yn nodi problemau ac yn gweithredu atebion ac yn sicrhau effeithlonrwydd ar bob cam, a hynny heb gyfaddawdu ar foeseg logisteg a gweithrediadau ar draws nwyddau a gwasanaethau sefydliadau.

Bydd ein harbenigwyr yn defnyddio'u harbenigedd academaidd ac ymgynghori er mwyn eich paratoi ar gyfer cyfleoedd gyrfa byd-eang, gan eich helpu i archwilio cludiant a logisteg carbon isel, stocrestrau, warysau a chaffael, a rheoli adnoddau a deunyddiau. Byddant yn defnyddio ymchwil blaengar ac enghreifftiau o'r byd go iawn er mwyn eich cyflwyno i ddatblygiadau arloesol technolegol ym maes logisteg, ochr yn ochr â'r technegau rheoli, y systemau a'r syniadau diweddaraf.

## NODWEDDION UNIGRYW

Cyfle i ddysgu gan un o'r grwpiau mwyaf o arbenigwyr logisteg a rheoli gweithrediadau yn y DU.

Cyfle i weithio gyda phartner diwydiannol ar brosiect ymchwil wrth gasglu data sylfaenol ar gyfer eich traethawd hir.

Cyfle i gael y mewnwelediadau diweddaraf ym maes ymchwil ac ymarfer logisteg a gweithrediadau, gan siaradwyr gwadd uchel eu parch a thrwy ymweliadau â chwmnïau.

## ACHREDIAD

The Chartered Institute of Logistics and Transport

| CIPOLWG |
|---|
| **MODIWLAU ENGHREIFFTIOL** |
| Logisteg a'i Darparu |
| Arferion Di-wastraff a Rhagoriaeth Weithredol |
| E-fusnes ac E-logisteg |
| Darogan |
| Rheoli prosiectau |
| **HYD Y CYFNOD ASTUDIO** |
| Un flwyddyn llawnamser |
| **GOFYNION MYNEDIAD** |
| 2:1 gradd neu gyfwerth. Rydyn ni hefyd yn derbyn myfyrwyr nad oes ganddynt radd gyntaf. Cewch eich ystyried ar gyfer y rhaglen os oes gennych brofiad gwaith perthnasol a sylweddol. IELTS: 6.5 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori. |

"Yn ystod taith maes, cefais fy atgoffa, er bod awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial yn esblygu'n gyflym, mae'r gallu i drefnu ac arwain yn dda, yn ogystal â chyfathrebu'n effeithiol a pharch ymhlith staff, yr un mor bwysig i lwyddiant busnes."

**Vasileios Efstathiou (uchod)**
Logisteg a Rheoli Gweithrediadau (MSc)



# Polisi Morol a Rheoli Llongau (MSc)

## Archwiliwch y diwydiant morol drwy nifer o ddisgyblaethau ar y rhaglen hon sy'n canolbwyntio ar ddulliau ymarferol.

**CIPOLWG**

**MODIWLAU ENGHREIFFTIOL**

- Economeg Forwrol
- Cyfraith Masnach Ryngwladol a Chludiant
- Siartro Llongau
- Polisïau Morol
- Gweithrediadau Cludiant Amlfodd

**HYD Y CYFNOD ASTUDIO**

Un flwyddyn llawnamser

**GOFYNION MYNEDIAD**

2:1 gradd neu gyfwerth. Rydym hefyd yn derbyn cymwysterau capten y môr ac ymgeiswyr sydd â phrofiad gwaith helaeth yn ymwneud â'r môr.

IELTS: 6.5 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori.

Mae twf cyflym a chystadleuaeth yn y diwydiant llongau byd-eang wedi arwain at ddiffyg gweithwyr proffesiynol sydd â'r adnoddau a'r technegau i reoli porthladdoedd a gweithrediadau llongau, yn unol â chyfraith forol a rheoliadau diogelwch.

Ochr yn ochr â systemau cymhleth ar gyfer llywodraethu'r cefnforoedd, sy'n amrywio o godau ymddygiad i bolisïau rhanbarthol a rhyngwladol sy'n rhwymo'n gyfreithiol, mae galw mawr am weithwyr morol proffesiynol sy'n gallu mapio'r cwrs o'u blaenau.

**Newid y byd yw ein busnes ni.**

Mae ein cwrs MSc Polisi Morol a Rheoli Llongau yn mynd i'r afael â'r heriau mawr hyn o amrywiaeth o safbwyntiau. Byddwn ni'n eich helpu i ddod yn rheolwr proffesiynol neu weithiwr proffesiynol sy'n llunio polisïau ac yn gallu gwneud penderfyniadau sy'n ystyried ystod lawn o effeithiau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â busnes morol.

Bydd ein harbenigwyr yn defnyddio'u harbenigedd academaidd ac ymgynghori i wella eich rhagolygon o ran sicrhau gyrfa ryngwladol, gan eich cyflwyno i longau o fewn systemau logisteg ehangach. Byddant yn defnyddio ymchwil blaengar i roi dealltwriaeth feirniadol i chi o'r diwydiant morol, y polisïau amgylcheddol y mae'n gweithredu odanynt, a rheoli gweithrediadau llongau.

### NODWEDDION UNIGRYW

Cyfle i ddysgu gan academyddion sy'n flaenllaw yn rhyngwladol ym maes materion morol.

Cyfle i weithio gyda phartner diwydiannol ar brosiect ymchwil wrth gasglu data sylfaenol ar gyfer eich traethawd hir.

Cyfle i ymuno â rhwydwaith byd-eang o gyn-fyfyrwyr a myfyrwyr presennol sydd nawr yn gweithio yng Ngwlad Groeg, Singapore, De Korea, Taiwan, Tsieina a'r DU.

### ACHREDIAD

The Chartered Institute of Logistics and Transport

"Mae rhwydweithio â gweithwyr proffesiynol ifanc o'r un anian yn ogystal â staff arbenigol o wahanol ddiwylliannau wedi ehangu fy ngorwelion a rhoi dealltwriaeth mwy hyblyg ac addasadwy i mi o'r diwydiant morol."

**Lydia Alexandra Koumarela (uchod)**
Polisi Morol a Rheoli Llongau (MSc)

# Opsiynau astudio eraill

Mae ein rhaglenni Meistr yn rhan o amrywiaeth o opsiynau astudio i fyfyrwyr ôl-raddedig, seiliedig ar her, sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu eich anghenion gyrfa.

## MBA
### (llawn-amser a rhan-amser)

Cymerwch gam mawr ymlaen yn eich gyrfa gyda chyfnod astudio â ffocws a datblygiad personol.

Ydych chi'n weithiwr proffesiynol uchelgeisiol sydd eisiau symud ymlaen at swydd ar uwch-arweinyddol ac ysgogi newid cadarnhaol ym maes busnes? Os yw hyn yn swnio fel chi, yna mae MBA Caerdydd yn gam nesaf gwych.

Beth bynnag yw eich cefndir fel rheolwr, rydym yn cynnig profiad heriol a fydd yn eich ymestyn ac yn eich cefnogi, yn datblygu eich gwybodaeth am fusnes, yn gwella eich hunanymwybyddiaeth ac yn mireinio eich gallu fel arweinydd effeithiol ac ysbrydoledig ar hyd y ffordd.

Manteisiwch ar y cyfle hwn i ffynnu ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol profiadol o'r un anian.

## MBA gyda Deallusrwydd Artiffisial

Wedi'i gyflwyno ar y cyd â'r Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg, mae'r MBA gyda Deallusrwydd Artiffisial yn cyfuno cynhwysion craidd ein MBA blaenllaw gyda'r cyfle i astudio'r technolegau, yr algorithmau a'r offerynnau sy'n gyrru datblygiad dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial.

## Doethuriaeth

Paratowch ar gyfer eich gyrfa ymchwil yn y byd academaidd, fel ymarferydd busnes neu luniwr penderfyniadau polisi cyhoeddus ar ein rhaglenni doethurol.

Fel myfyriwr Doethuriaeth, rydych wedi'ch integreiddio'n llawn yn ein cymuned ymchwil ac academaidd ac wedi dod yn rhan o amgylchedd ymchwil dynamig ac amrywiol.

Byddwn ni'n darparu'r adnoddau, y gefnogaeth a'r cyfleoedd i chi gyfrannu at ddatblygu gwybodaeth a chreu effaith a gwerth yn eich maes academaidd dewisol.

↘ **Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn**
cardiff.ac.uk/cy/business-school

# Caerdydd: dinas cyfle



**A hithau'n ddynamig, cyfoes a hawdd mynd o'i chwmpas, mae ein dinas yn lle rhagorol i fyw, gweithio ac astudio ynddo. Mae Caerdydd yn llawn cymeriad, treftadaeth ac uchelgais, ac mae'n cynnig y gorau o ddau fyd: mae'n cyfuno holl fanteision lleoliad cryno, cyfeillgar a fforddiadwy â'r cyfleusterau diwylliannol a hamdden y byddech chi'n eu disgwyl gan brifddinas fodern.**

Mae'r miloedd o fyfyrwyr sy'n dewis gwneud Caerdydd yn gartref iddynt bob blwyddyn yn rhan o guriad calon y ddinas, ac yn gwella ei diwylliant cyfoethog ac amrywiol. Cyfeillgar, croesawgar a chynhwysol – mae Caerdydd yn brifddinas sydd â theimlad cymunedol. Ni waeth pwy ydych chi, gallwch fod yn chi eich hun yma.

**'Mae dinas fywiog Caerdydd wedi tyfu'n rhyfeddol o fod yn dref fawr i fod yn ddinas wirioneddol ryngwladol, gyda datblygiadau enfawr yng nghanol y ddinas yn ogystal ag ar hyd y glannau ar eu newydd wedd. Gydag enw am fod yn lle da i loddesta, ynghyd â llawer o atyniadau chwaraeon a diwylliannol o'r radd flaenaf, mae'n un o gyrchfannau mwyaf deniadol y DU."**

ROUGH GUIDES 2022

# Caerdydd: y brifysgol

Mae gan Brifysgol Caerdydd enw da ar lefel ryngwladol am ragori ym maes addysgu ac ymchwil, a hynny ar sail hanes o wasanaeth a chyflawniad ers 1883.



## YMCHWIL FLAENGAR

Mae canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021 yn dangos bod 90% o'r ymchwil a wneir ym Mhrifysgol Caerdydd naill ai'n flaengar yn swyddogol neu'n rhagorol yn rhyngwladol. Mae'r canlynol yn berthnasol i ni:

- **Ymhlith y 20 prifysgol orau yn y DU** ar gyfer ansawdd cyffredinol ein hymchwil (19eg), ein heffaith (11eg) a'n hamgylchedd (16eg)
- **Yn y 14eg safle yn y DU** ar gyfer pŵer ymchwil, sy'n dangos maint ac ansawdd ein hymchwil
- **Y brifysgol ymchwil-ddwys fwyaf blaenllaw yng Nghymru** ar sail safon ei hymchwil, ei phŵer ymchwil, ei heffaith, a'i hamgylchedd

## CYMUNED RYNGWLADOL

Gyda mwy na 8,500 o fyfyrwyr rhyngwladol o fwy na 130 o wledydd, byddwch yn rhan o gymuned fywiog sy'n dathlu ei diwylliant amrywiol.



## EIN GWOBRAU

Dyfarnwyd saith Gwobr Penblwydd y Frenhines i ni, sy'n cydnabod rhagoriaeth o'r radd flaenaf mewn Addysg Uwch yn y DU. Rydym hefyd yn gartref i garfan fawr o staff uchel eu parch, gan gynnwys dau enillydd y Wobr Nobel ac 13 Cymrawd y Gymdeithas Frenhinol.

## RHAGOLYGON CYFLOGAETH CRYF

Roedd 94% o'n graddedigion o raglen ôl-raddedig a addysgir naill ai mewn cyflogaeth a/neu'n astudio ymhellach, ar fin dechrau swydd neu gwrs newydd neu'n gwneud gweithgareddau eraill, fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs. Roedd 87% o'n graddedigion a oedd yn gweithio yn y DU mewn cyflogaeth hynod fedrus 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs (Arolwg Hynt Graddedigion HESA, 2020/21*).



## ADDYSGU RHAGOROL

Mae gennym hanes hir o addysgu rhagorol sy'n seiliedig ar ymchwil, ac rydyn ni ymhlith y 40 prifysg orau o ran addysgu rhagorol (Rhestr y Times Higher Education o Brifysgolion Gorau'r Byd 2022).

## MAE UNDEB MYFYRWYR YMHLITH Y DDAU ORAU

Mae ein Hundeb Myfyrwyr sydd wedi ennill gwobrau yn aml yn cael ei dewis yn un o'r gorau yn y DU, ac enillodd safle'r ail orau yng Ngwobrau Dewis y Myfyrwyr WhatUni 2023.

**Cewch wybod rhagor** cardiff.ac.uk/cy

*Cyhoeddwyd canlyniadau arolwg Hynt Graddedigion 2020/21 gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ym mis Gorffennaf 2023.

Yn cynnwys data HESA: Hawlfraint Jisc 2023. Ni all Jisc dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw gasgliadau neu benderfyniadau a wneir gan drydydd partïon ar sail ei ddata.

# Byw yng Nghaerdydd

P'un a ydych yn dewis byw yn un o breswylfeydd y Brifysgol neu lety preifat, rydyn ni am i chi deimlo'n gartrefol yma.

## PRESWYLFEYDD Y BRIFYSGOL

Mae fflatiau dynodedig ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig ar gael ym mhreswylfeydd y Brifysgol, fel bod modd i chi gyfarfod, byw a gweithio ochr yn ochr â phobl debyg sy'n deall gofynion astudiaethau ôl-raddedig. Gwarentir meddiannaeth unigol i fyfyrwyr ôl-raddedig rhyngwladol ym mhreswylfeydd yn y Brifysgol, a hynny drwy gydol eu cyfnod astudio, ac i fyfyrwyr o'r UE am y flwyddyn gyntaf o'u hastudiaethau.*

## OPSIYNAU SY'N ADDAS I BAWB

Rydym yn cynnig amrywiaeth o breswylfeydd o safon i fyfyrwyr, sy'n addas ar gyfer dewisiadau a chyllidebau unigol, gan gynnwys llety unigol neu gymysg o ran rhywedd.

## FFORDDIADWY

Mae Caerdydd yn un o ddinasoedd prifysgol mwyaf fforddiadwy'r DU**, sy'n rhywbeth aadlewyrchir yn rhannol yn ein llety prifysgol rhad. Mae preswylfa hunanarlwyo'n costio rhwng £113 a £157 yr wythnos, tra bo ystafell mewn preswylfeydd wedi'u harlwyo'n rhannol yn costio roddeutu £123 yr wythnos (prisiau 2023/24 ar gyfer preswylfeydd â meddiannaeth unigol).

## LLETY PREIFAT

Mae digonedd o lety ar gael gan landlordiaid preifat yng Nghaerdydd. Rydym yn cynnal digwyddiad chwilio am dŷ ym mis Awst, sy'n rhoi'r cyfle i chi gwrdd â myfyrwyr ôl-raddedig eraill a chwilio am lety preifat i'w rentu ar eich pen eich hun neu fel rhan o grŵp. Mae'r Undeb Myfyrwyr hefyd yn gweithredu ei asiantaeth gosod tai broffesiynol ei hun, sef Cardiff Student Letting, sy'n cynnig tai i fyfyrwyr ar gyfer amrywiaeth o gyllidebau, ac nid yw'n codi ffi asiantaeth.






*Mae amodau'n berthnasol.
**Ffynhonnell: Mynegai Byw Myfyrwyr NatWest 2023.

# Myfyrwyr rhyngwladol

Fel myfyriwr rhyngwladol, gallwch elwa ar ystod o wasanaethau cymorth arbenigol sydd wedi'u cynllunio i wneud y broses o symud i Gaerdydd mor syml â phosibl i chi.




## CANLLAWIAU AR GYFER GWNEUD CAIS

Mae ein tîm rhyngwladol yn cynnig gwasanaeth cyngor pwrpasol i helpu i'ch arwain trwy'r broses o wneud cais i astudio yng Nghaerdydd. Gallwch gysylltu â'n tîm rhyngwladol ar unrhyw adeg cyn, yn ystod neu ar ôl y broses o wneud cais, a byddant yn eich helpu gydag unrhyw gwestiynau a all fod gennych: international@cardiff.ac.uk

## CROESO CYNNES

Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth casglu rhad ac am ddim o faes awyr Heathrow cyn i'r flwyddyn academaidd ddechrau. Ar ôl i chi gyrraedd Caerdydd, byddwn ni'n darparu rhaglen sefydlu gynhwysfawr i chi ac yn trefnu gweithgareddau i'ch helpu i ymgartrefu yn eich cartref newydd.

## LLETY WEDI'I WARANTU

Mae Caerdydd yn un o blith nifer bach o brifysgolion yn unig sy'n gwarantu cynnig llety o safon, sydd wedi'i leoli'n gyfleus i fyfyrwyr rhyngwladol unigol.*

Gweler tudalen 30 am ragor o wybodaeth am ein dewis eang o lety i fyfyrwyr.

## CYNGOR ARBENIGOL

Ochr yn ochr â'r cymorth a ddarperir gan Ysgol Busnes Caerdydd, mae cynghorwyr myfyrwyr rhyngwladol wrth law i'ch cynorthwyo â materion yn cynnwys fisâu, mewnfudo a chyllid.

## CYMORTH IAITH SAESNEG

Mae'r ganolfan addysgu rhaglenni iaith Saesneg yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau. Mae hyd y cyrsiau'n amrywio rhwng wyth wythnos a naw mis ac yn darparu ar gyfer y rhan fwyaf o lefelau a galluoedd ieithyddol.

Mae ein myfyrwyr yn dod o bedwar ban y byd i wella'u Saesneg cyn dechrau astudio mewn prifysgol yn y DU. Addysgir dosbarthiadau ar y campws gan ein tiwtoriaid iaith Saesneg cymwys a phrofiadol iawn.

- **Rhaglenni Cyn-sesiynol yr Haf:** Mae cyrsiau dwys ar gael ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol sydd wedi cael cynnig amodol.
- **Rhaglen Astudio Saesneg ar gyfer Prifysgol:** Rhaglen sgiliau astudio Saesneg llawnamser y gellir ymuno â hi ym mis Medi, mis Ionawr a mis Ebrill.
- **Cymorth iaith Saesneg:** Rydyn ni'n darparu cymorth gydag ysgrifennu academaidd, technegau arholiad a sgiliau eraill i'ch helpu yn ystod eich astudiaethau.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn**
cardiff.ac.uk/cy/international

*Mae amodau'n berthnasol.

# Ariannu eich astudiaethau

Rydym yn deall bod symud eich addysg ymlaen i lefel ôl-raddedig yn ymrwymiad ariannol sylweddol, felly mae'n syniad da ystyried eich opsiynau ariannu cyn gynted â phosibl.

## YSGOLORIAETH RHAGORIAETH MEISTR

Mae ein cynllun Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Meistr wedi'i gynllunio i gefnogi myfyrwyr o'r radd flaenaf o'r DU a'r UE o ran ariannu eich astudiaethau ôl-raddedig.

Fe wnaethom ymrwymo i fuddsoddi hyd at £500,000 yn y cynllun ar gyfer cylch mynediad 2023, gyda phob ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu ar ffurf gostyngiad yn y ffioedd dysgu o £3,000 – gweler ein gwefan am fanylion.

## YSGOLORIAETHAU RHYNGWLADOL

Rydym yn cynnal amrywiaeth o raglenni ysgoloriaeth clodfawr i gefnogi myfyrwyr rhyngwladol rhagorol, gan gynnwys cynllun Ysgoloriaeth Rhyngwladol yr Is-ganghellor.

Mae dyfarniadau o £2,000 i fyny ar gael i fyfyrwyr rhyngwladol ar draws ystod eang o feysydd pwnc ac, mewn llawer o achosion, byddwch yn cael eich ystyried yn awtomatig ar eu cyfer pan fyddwch yn gwneud cais am eich rhaglen radd – gweler ein gwefan am fanylion.

## CYNLLUN GOSTYNGIAD I GYN-FYFYRWYR

Mae holl raddedigion Prifysgol Caerdydd yn gymwys i gael gostyngiad i gyn-fyfyrwyr. Mae'r cynllun yn rhoi gostyngiad o £1,000 yn y ffioedd dysgu i fyfyrwyr cartref, a £2,000 i fyfyrwyr rhyngwladol ac Ewropeaidd – gweler ein gwefan am fanylion.

## CYLLID I FYFYRWYR ÔL-RADDEDIG GAN LYWODRAETH Y DU

Mae benthyciadau i fyfyrwyr ôl-raddedig gan Lywodraeth y DU ar gael i gefnogi myfyrwyr o'r DU a'r UE sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso.

Mae gwahanol fenthyciadau'n berthnasol gan ddibynnu ar ble rydych yn byw yn y DU a'r UE – mae manylion ar gael ar ein gwefan.

## BENTHYCIADAU LLYWODRAETH Y DU AT DDOETHURIAETH

Mae benthyciadau Llywodraeth y DU at Ddoethuriaeth hefyd ar gael i gefnogi myfyrwyr o'r DU a'r UE sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso perthnasol.

Yn yr un modd â chyllid Llywodraeth y DU ar gyfer astudiaethau Meistr, mae benthyciadau gwahanol yn berthnasol gan ddibynnu ar ble rydych yn byw yn y DU – gweler ein gwefan am fanylion.

## FFYNONELLAU CYLLID YCHWANEGOL

Mae'r saith Cyngor Ymchwil yn y DU yn ariannu myfyrwyr ymchwil o'r DU a'r UE ar sail gystadleuol drwy ein rhaglenni hyfforddi at Ddoethuriaeth.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym yn hysbysebu amrywiaeth o brosiectau Doethuriaeth a ariennir ar ein gwefan.

Os ydych chi'n fyfyriwr rhyngwladol, sicrhewch eich bod yn ymchwilio i'r cyllid a allai fod ar gael gan eich gwlad eich hun drwy'r Cyngor Prydeinig a chyrff allanol eraill sy'n cynnig arian.

Gall ein Siop Swyddi Unistaff eich helpu i gael swydd ran-amser, achlysurol neu reolaidd yn y brifysgol ac mewn sefydliadau allanol.

Mae nifer o elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau hefyd yn cynnig cyllid ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig.

## FAINT MAE FY NGHWRS YN EI GOSTIO?

Bydd y ffioedd dysgu'n amrywio yn ôl y cwrs rydych chi'n dewis ei astudio, ac ar b'un a ydych chi'n fyfyriwr cartref, neu'n fyfyriwr rhyngwladol.

Mae rhagor o fanylion am y ffioedd dysgu ar gyfer rhaglenni unigol ar wefannau ein cyrsiau.

**↘ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn**
www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate

# Gwneud eich cais

Gallwch wneud cais am ein rhaglenni ôl-raddedig yn uniongyrchol trwy ein gwefan.

Ar ôl penderfynu pa faes a rhaglen astudio sydd o ddiddordeb i chi, defnyddiwch ein canllaw fesul cam i'ch helpu drwy'r broses.

**Y BROSES YMGEISIO**

**CAM 1**

**Defnyddiwch wefannau ein cyrsiau i nodi'r rhaglen astudio** yr hoffech chi ei dilyn. Gwiriwch a oes dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais a phryd mae'r rhaglen yn dechrau, a sicrhewch eich bod yn bodloni'r holl ofynion mynediad a restrir.

**CAM 2**

**Ymchwiliwch i'ch opsiynau ariannu.**

**CAM 3**

**Cyflwynwch eich cais.**
Gallwch wneud cais uniongyrchol drwy ddefnyddio ein gwasanaeth ymgeisio ar-lein, sy'n eich galluogi i gadw eich cais a dychwelyd iddo rywbryd arall.

Byddwch yn cael cydnabyddiaeth awtomatig o'ch cais ar ôl ei gyflwyno. Cewch fynediad i'r porth ymgeiswyr ar-lein, lle gallwch ddilyn hynt eich cais, lanlwytho dogfennau ategol ychwanegol a diweddaru eich manylion cyswllt.

**EICH CYNNIG:**

Gallwch ddilyn hynt eich cais yn ein porth cyflwyno cais ar-lein. Cewch hefyd e-bost sy'n cynnwys manylion eich cynnig. Bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn cael cynnig ymhen pedair wythnos, er y gall rhai ceisiadau gymryd yn hirach. Gall eich cynnig fod yn:

**Amodol:** Bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth ychwanegol. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn yn golygu darparu copïau o'ch tystysgrifau cymhwyster pan fyddant ar gael.

**Diamod:** Cynigiwyd lle i chi – llongyfarchiadau!

**Myfyrwyr y DU/yr UE:** Yn y rhan fwyaf o achosion, yr oll y bydd angen i chi wneud i sicrhau eich lle yw derbyn eich cynnig.

**Myfyrwyr rhyngwladol:** Bydd angen i chi dderbyn eich cynnig a thalu blaendal i sicrhau eich lle.

**RHAGOR O WYBODAETH:**

Derbyniadau Ôl-raddedig i Ysgol Busnes Caerdydd

**E-bost:** astudiobusnes@caerdydd.ac.uk

**Ffôn:** +44 (0)29 2087 9999


**↘ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn**
www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate






# Beth ydych chi'n sefyll drosto?



CADW MEWN CYSYLLTIAD

**Ffôn: +44 (0)29 2087 9999**
**E-bost:** studybusiness@caerdydd.ac.uk
Gwefan: **www.cardiff.ac.uk/cy/business-school**

BusinessCardiff
@CardiffBusiness

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855

AACSB ACCREDITED

ASSOCIATION OF MBAS ACCREDITED

Rydyn ni wedi argraffu'r llyfryn hwn ar bapur o ffynonellau a reolir yn gynaliadwy a defnyddio inciau a ddaeth o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r llyfryn hwn, a'r broses weithgynhyrchu, ill dau wedi'u hardystio gan yr FSC®. Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu yn ôl safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol. Ar ôl defnyddio'r llyfryn hwn, gallwch chi ei ailgylchu, ond ystyriwch ei roi i ffrind neu ei adael yn y llyfrgell gyrfaoedd er gwybodaeth i fyfyrwyr eraill. Diolch.

GWYBODAETH GYFREITHIOL BWYSIG

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylch derbyniadau 2024 ac mae'n gywir ar adeg mynd i'r wasg ym mis Hydref 2023. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno i ni a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan **www.cardiff.ac.uk/cy** cyn cyflwyno cais rhag ofn y gwnaed unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma. Lle bydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'n gwefan, dylid rhoi blaenoriaeth i gynnwys y wefan, sy'n cynrychioli'r modd yr ydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar i chi.

Eich gradd: Mae myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

CARBS/1123/100